**Eitem ar yr agenda: 5**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**Y PANEL GWEITHREDOL**

**31 IONAWR 2005**

**PWERAU MASNACHU AWDURDOD LLEOL**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Cytuno ar ymateb i bapur ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad ar bwerau masnachu awdurdod lleol.

**Cefndir**

2 Daeth y papur ymgynghorol allan ym mis Tachwedd, ac mae'n ymdrin â bwriadau i gael gorchymyn dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a fyddai'n rhoi'r pŵer i awdurdodau gwerth gorau fasnachu er mwyn elw. Mae'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 7 Chwefror. (Mae modd gweld testun llawn y papur ymgynghorol ar www.wales.gov.uk/subilocalgov/content/consultation/trading-power-2004-e.htm neu gallwch wneud cais i'r Swyddog Cyswllt Aelodau.)

3 Dim ond trwy gwmni awdurdod lleol y gellid defnyddio'r pwer i fasnachu. Yn Lloegr, nid yw'r gorchymyn cyfatebol wedi caniatáu i awdurdodau tân ac achub fanteisio ar adran 95.

4 Mae'r papur ymgynghorol yn mynegi'r farn fod yr achos dros roi'r gallu i fansachu yn llai clir nag ar gyfer cynghorau oherwydd bod awdurdodau tân ac achub yn darparu ystod llawer culach o wasanaethau na chynghorau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn "cadw meddwl agored" ac yn gwahodd sylwadau.

5 Mae'r papur yn cynnig

5.1 y dylai awdurdodau lunio a chymeradwyo cynllun busnes cyn dechrau masnachu;
5.2 na ddylai awdurdodau roi cymorthdaliadau i unrhyw gwmni masnachu y maent yn ei sefydlu;
5.3 y dylai'r Cynulliad dynnu'r pwer i fansachu oddi ar awdurdod mewn rhai amgylchiadau, megis colledion masnachu parhaus a difrifol;

a

5.4 cheisio sylwadau ynghylch a oes angen unrhyw amddiffynfeydd eraill i ddiogelu budd busnesau, trethdalwyr ac eraill.

**Cyngor**

6 Ar hyn o bryd, nid yw'r awdurdod yn ymgymryd yn helaeth â darparu gwasanaethau i gyrff eraill. Disgwylir i Lywodraeth y Cynulliad wneud gorchymyn dan adran 19 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i ganiatáu i awdurdodau tân ac achub godi tâl am ystod o wasanaethau ar sail adfer cost. Fodd bynnag, ni ddylai'r un o'r ffactorau hyn gamliwio'r ymateb i'r ymgynghoriad. Yn unol â dymuniad cyffredinol llywodraeth leol i geisio cael cymaint â phosib o ryddid yn lleol, ynghyd ag atebolrwydd am berfformiad a'r penderfyniadau a wneir, rwy'n argymell mai'r ymateb y dylid ei roi yw bod y pŵer i fasnachu'n cael ei roi i awdurdodau tân ac achub, hyd yn oed os nad yw'r un o'r awdurdodau yng Nghymru yn bwriadu ei ddefnyddio ar hyd o bryd.

7 Ni ellir dadlau go iawn yn erbyn y gofynion arfaethedig o ran bod awdurdod yn gorfod cymeradwyo cynlluniau busnes cyn dechrau masnachu a bod cymorthdaliadau'n cael eu gwahardd. Dim ond wedi ystyriaeth fanwl ar hyfywedd y bwriad y dylid masnachu, ac ni ddylid rhoi arian trethdalwyr mewn perygl. Fodd bynnag, rwy'n argymell y dylai'r awdurdod wrthwynebu'r egwyddor o dynnu pwerau masnachu yn ôl. Byddai hynny'n cyflwyno elfen o ryddid a hyblygrwydd i rai sy'n perfformio orau ac nid yw hyn wedi bod yn rhan o'r agenda bolisi ar gyfer Cymru hyd yn hyn. Dylai pob pŵer fod ar gael i bob awdurdod yn ddiwahân. Hefyd, mae amddiffynfeydd eraill pwysig ar gael beth bynnag, gan gynnwys trefniadau rheolaeth mewnol ac adrodd cadarn mewn llywodraeth leol, y modd i'r cyhoedd allu craffu ar gyfrifon sy'n cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol a benodir gan y Comisiwn Archwilio, atebolrwydd aelodau etholedig am eu penderfyniadau, yn ogystal â phwerau ymyrryd helaeth ar gael i'r Cynulliad dan ddeddfwriaeth gwerth gorau a Deddf 2004.

**Argymhelliad**

8 Bod y Panel yn cytuno y dylid anfon ymateb i Lywodraeth y Cynulliad yn unol â pharagraffau 6 a 7, i ddadlau y dylai'r pŵer i fasnachu fod ar gael i bob awdurdod tân ac achub, ac na ddylai'r Cynulliad dynnu'r pŵer i fansachu oddi ar unrhyw awdurdod.